

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD Y B4329 ABERTEIFI I HWLFFORDD A
FFORDD DOSBARTH III YR C3048 TREFDRAETH I FONCATH) (TERFYN
CYFLYMDER 40MYA a 50MYA) 2022**

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 a Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”). Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 40mya drwy Bont Saeson a darparu terfyn cyflymder “parth clustogi” o 50mya rhwng y terfyn cyflymder o 40mya a'r terfyn cyflymder cenedlaethol fel y nodir yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cynigion yn cael eu hyrwyddo yn dilyn adolygiad o'r terfyn cyflymder ar hyd y ffyrdd hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft, a datganiad o resymau'r cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, ar-lein yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad drwy gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein, neu yn ysgrifenedig i'r islofnodedig, erbyn 31 Mawrth 2022. Dyfynnwch: B4329-S/L.

Dyddiedig y 10fed diwrnod hwn o Awst 2022.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER O 40MYA

Ffordd	Rhan
B4329	O bwynt 127 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r C3048, i bwynt 42 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa breifat i Barc-y-Meurig.
C3048 i Flaen-ffos	O'i chyffordd â'r B4329 i'r dwyrain am 92 metr.
C3048 i Drefdraeth	O'i chyffordd gyda'r B4329 i'r gorllewin am 179 metr.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER O 50MYA




B4329	O bwynt 42 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa breifat i Barc-y-Meurig i bwynt 530 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa hon.
-------	---



B4329 - Speed Limit Review

Map produced on: 26 June 2022

Scale (A3 Print)



- - - Proposed 50mph Limit
- - - Proposed 40mph Limit
- - - Existing 40mph Limit

DATGANIAD O'R RHESWM

Mae'r cynnig yn dilyn adolygiad o'r terfyn cyflymder a chynrychiolaeth oddi wrth y gymuned leol. Roedd yr adolygiad yn ystyried hanes damweiniau a data o arolygon cyflymder a'i nod yw mynd i'r afael â'r pryderon diogelwch sy'n bodoli mewn perthynas â'r B4329.

**GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD Y B4329 ABERTEIFI I HWLFFORDD A
FFORDD DOSBARTH III YR C3048 TREFDRAETH I FONCATH) (TERFYN
CYFLYMDER 40MYA a 50MYA) 2022**

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato wedi hyn fel “y Cyngor”) drwy arfer y pwerau a roddir iddo o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”) a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru cerbyd modur ar gyflymder sy'n gynt na 40 milltir yr awr ar y rhannau o ffyrdd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.
2. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru cerbyd modur ar gyflymder sy'n gynt na 50 milltir yr awr ar y rhannau o ffyrdd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.
3. Bydd ‘Gorchymyn Sir Benfro (Ffynnon-groes, ger Eglwyswrw) (Terfyn Cyflymder 40mya) 2013’ yn cael ei ddirymu drwy hyn i'r graddau y mae'n ymwneud â'r rhannau o'r ffordd y cyfeirir atynt yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwn.
4. Gellir dyfynnu'r gorchymyn hwn fel “Gorchymyn Sir Benfro (Ffordd y B4329 Aberteifi i Hwlfordd a Ffordd Dosbarth III yr C3048 Trefdraeth i Foncath) (Terfyn Cyflymder 40mya a 50mya) 2022”.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar yr **fed diwrnod hwn o ****, Dwy Fil Dau Ddeg a Dau.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**

CYNGOR SIR PENFRO yma

ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER O 40MYA

Ffordd

Rhan

B4329

O bwynt 127 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r C3048, i bwynt 42 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa breifat i Barc-y-Meurig.

C3048 i Flaen-ffos

O'i chyffordd â'r B4329 i'r dwyrain am 92 metr.

C3048 i Drefdraeth

O'i chyffordd gyda'r B4329 i'r gorllewin am 179 metr.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER O 50MYA

B4329

O bwynt 42 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa breifat i Barc-y-Meurig i bwynt 530 metr i'r de-orllewin o'r fynedfa hon.